***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 188 (Cy. 62)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Addasiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *25 Chwefror 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *28 Chwefror 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 173 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae drafft o'r Rheoliadau hyn wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru yn unol ag adran 174(4) a (5)(t) o'r Ddeddf honno.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Addasiadau Canlyniadol a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 28 Chwefror 2022.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdod trafnidiaeth lleol" ("*local transport authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;

ystyr "cyd-bwyllgor corfforedig" ("*corporate joint committee*") yw cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir gan Reoliadau o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;

ystyr "cyngor cyfansoddol" ("*constituent council*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru, y mae Gweinidogion Cymru wedi sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig mewn cysylltiad â'i ardal;

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Trafnidiaeth 2000(**2**).

(**1**) 2021 dsc 1.
(**2**) 2000 p. 38.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at ddarpariaeth "addasedig" o Ddeddf 2000 yn gyfeiriad at y ddarpariaeth honno fel y'i haddaswyd gan yr Atodlen i Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021(**3**).

**Addasiadau i ddeddfwriaeth**

**3.** Pan fo'r swyddogaeth o ddatblygu polisïau o dan adran 108(1)(a) a (2A)(a) o Ran 2 o Ddeddf 2000 mewn cysylltiad ag ardal awdurdod trafnidiaeth lleol wedi ei rhoi i gyd-bwyllgor corfforedig, mae'r ddeddfwriaeth y cyfeirir ati yn yr Atodlen yn gymwys yn ddarostyngedig i'r addasiadau a nodir yn yr Atodlen.

**Darpariaeth drosiannol**

**4.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r swyddogaeth o ddatblygu polisïau o dan adran 108(1)(a) a (2A)(a) o Ran 2 o Ddeddf 2000 mewn cysylltiad ag ardal awdurdod trafnidiaeth lleol wedi ei rhoi i gyd-bwyllgor corfforedig.

(2) Mae unrhyw bolisïau a ddatblygir gan gyngor cyfansoddol o dan adran 108(1)(a) o Ddeddf 2000 i'w trin fel pe baent yn bolisïau wedi eu datblygu gan y cyd-bwyllgor corfforedig o dan adran 108(1) addasedig o Ddeddf 2000 mewn cysylltiad â'r rhan honno o ardal y cyd-bwyllgor corfforedig sydd wedi ei chyfansoddi o ardal y cyngor cyfansoddol.

(3) Mae paragraff (2) yn peidio â bod yn gymwys pan fo'r cyd-bwyllgor corfforedig yn datblygu polisïau mewn cysylltiad â'r rhan honno o'i ardal o dan adran 108(1) addasedig o Ddeddf 2000.

(4) Mae unrhyw bolisïau a ddatblygir gan gyngor cyfansoddol o dan adran 108(2A) o Ddeddf 2000 i'w trin fel pe baent yn bolisïau wedi eu datblygu gan y cyd-bwyllgor corfforedig o dan adran 108(2A) addasedig mewn cysylltiad â'r rhan honno o ardal y cyd-bwyllgor corfforedig sydd wedi ei chyfansoddi o ardal y cyngor cyfansoddol.

(5) Mae paragraff (4) yn peidio â bod yn gymwys pan fo'r cyd-bwyllgor corfforedig yn datblygu polisïau mewn cysylltiad â'r rhan honno o'i ardal o dan adran 108(2A) addasedig.

(6) Mae cynllun trafnidiaeth lleol a gyflwynir gan gyngor cyfansoddol ac a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru o dan adran 109A o Ddeddf 2000 i'w drin fel pe bai'n gynllun trafnidiaeth rhanbarthol wedi ei gyflwyno gan gyd-bwyllgor corfforedig a'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru o dan adran 109A addasedig mewn cysylltiad â'r rhan honno o ardal y cyd-bwyllgor corfforedig sydd wedi ei chyfansoddi o ardal y cyngor cyfansoddol.

(7) Mae paragraff (6) yn peidio â bod yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo cynllun trafnidiaeth rhanbarthol y cyd-bwyllgor corfforedig o dan adran 109A addasedig.

**Dirymu Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2014**

**5.** Mae Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2014(**4**) wedi ei ddirymu.

*Lee Waters*
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru

25 Chwefror 2022

(**3**) O.S. 2021/328 (Cy. 86).
(**4**) 2014/2178 (Cy. 212).

## YR ATODLEN

Rheoliad 3

Addasiadau i ddeddfwriaeth

### Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005

**1.** Mae rheoliad 13 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005(**5**) i'w ddarllen fel pe bai—

(a) ym mharagraff (1), y canlynol wedi ei roi yn lle is-baragraffau (a) a (b)—

"(a) unrhyw gynllun trafnidiaeth rhanbarthol a baratowyd o dan adran 108(3A) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (fel y'i haddaswyd gan Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021), y mae ei bolisïau'n effeithio ar unrhyw ran o ardal yr ACLl;

(b) unrhyw bolisïau eraill a baratowyd o dan adran 108(1) a (2A) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (fel y'i haddaswyd gan Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021) sy'n effeithio ar unrhyw ran o ardal yr ACLl;";

(b) paragraff (3) wedi ei hepgor.

### Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006

**2.** Mae Deddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006(**6**) i'w darllen fel pe bai—

(a) yn adran 2 (Strategaeth Drafnidiaeth Cymru), yn is-adran (5), y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (a)—

"(aa) each corporate joint committee upon whom the function of developing policies under section 108(1)(a) and (2A)(a) of Part 2 of the Transport Act 2000 has been conferred;";

(b) yn adran 14 (dehongli), y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl is-adran (3)—

"(4) "Corporate joint committee" means a corporate joint committee established by Regulations under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021."

### Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007

**3.** Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007(**7**) i'w darllen fel pe bai, yn y tabl yn Atodlen 3, y cofnod sy'n ymwneud â Chynllun Trafnidiaeth Lleol wedi ei hepgor.

### Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

**4.** Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013(**8**) i'w darllen fel pe bai—

(a) y canlynol wedi ei roi yn lle adran 6 (datblygu polisïau trafnidiaeth gan roi sylw i fap rhwydwaith integredig)—

---

(**5**) O.S. 2005/2839 (Cy. 203).
(**6**) 2006 p. 5.
(**7**) O.S. 2007/399 (Cy. 45).
(**8**) 2013 dccc 7.

**"6 Datblygu polisïau trafnidiaeth gan roi sylw i fap rhwydwaith integredig**

Rhaid i bob cyd-bwyllgor corfforedig y mae'r swyddogaeth o ddatblygu polisïau o dan adran 108(1)(a) a (2A)(a) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (polisïau sy'n sail i gynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol) wedi ei rhoi iddo, wrth ddatblygu'r polisïau hynny, roi sylw i'r map rhwydwaith integredig ar gyfer ei ardal.";

(b) yn adran 13, y canlynol wedi ei fewnosod yn y lle priodol—

"ystyr "cyd-bwyllgor corfforedig" ("*corporate joint committee*") yw cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir gan Reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;".

---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig. Mae cyd-bwyllgorau corfforedig yn gyrff corfforedig sy'n cynnwys y cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol hynny yng Nghymru a bennir yn y Rheoliadau sy'n eu sefydlu. Caniateir iddynt arfer y swyddogaethau a bennir yn y Rheoliadau hynny, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) swyddogaethau penodedig cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol o ran trafnidiaeth.

Mae swyddogaethau o dan adran 108 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 wedi eu rhoi i bedwar cyd-bwyllgor corfforedig ar wahân o dan y Rheoliadau a ganlyn a wnaed o dan adrannau 74, 83 a 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021—

(a) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) 2021 (O.S. 2021/343) (Cy. 97);

(b) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021 (O.S. 2021/352) (Cy. 104);

(c) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021 (O.S. 2021/342) (Cy. 96);

(d) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021 (O.S. 2021/339) (Cy. 93).

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021 ("Rheoliadau 2021"), sy'n dod i rym ar yr un diwrnod â'r Rheoliadau hyn, yn addasu Deddf Trafnidiaeth 2000 mewn achosion pan fo cyd-bwyllgor corfforedig wedi ei sefydlu drwy Reoliadau a'r swyddogaeth o ddatblygu polisïau o dan adran 108 o Ddeddf 2000 wedi ei rhoi i'r cyd-bwyllgor corfforedig. Mae'r addasiadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyd-bwyllgor corfforedig ddatblygu polisïau trafnidiaeth a sefydlu cynllun trafnidiaeth rhanbarthol ar gyfer ei ardal.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn o dan adran 173 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Maent yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i'r addasiadau i Ddeddf Trafnidiaeth 2000 a wneir gan Reoliadau 2021.

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth i gadw polisïau trafnidiaeth presennol a luniwyd gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol hyd nes y bydd cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol mewn grym mewn perthynas â'u hardaloedd.

Mae rheoliad 5 yn dirymu Gorchymyn Cynllunio Trafnidiaeth Rhanbarthol (Cymru) 2014.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.